

SIARTER 1

Blant a Phobl Ifanc Sy'n Derbyn Gofal ac Sy'n Gadael Gofal

Datblygwyd gan Rwydwaith Plant
Mewn Gofal Fforwm Gofal Cymru ar
y cyd â'r sefydliadau partner canlynol

- Rhwydwaith Maethu
- AFA Cymru - Cymdeithas ar Gyfer Maethu a Mabwysiadu
- Plant yng Nghymru ■ Voices from Care ■ NSPCC
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru



Children in Wales
Plant yng Nghymru



Looked After Children Network
Rhwydwaith Plant Mewn Gofal

RHAGAIR - gan yr Athro Mark Drakeford AC 3

NEGES - gan Sally Holland 4

CYFLWYNIAD 5 - 6

ADRAN 1 - Plant sy'n Derbyng Gofal 7 - 12

ADRAN 2 - Pobl sy'n Gadael Gofal 13 - 16

2



gan yr Athro **Mark Drakeford AC**, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n bleser gen i groesawu'r Siarter hon sy'n atgoffa pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal neu'n gofalu amdanynt am bwysigrwydd eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Hoffwn ddiolch i rwydwaith Plant sy'n Derbyng Gofal Fforwm Gofal Cymru am arwain y gwaith hwn ac am y sefydliadau hynny a gyfrannodd at ei ddatblygiad yn enwedig Voices from Care, Fforwm Pobl Ifanc Wrecsam a Fforwm Pobl sy'n Gadael Gofal Cymru.



3

Mae'r siarter yn datgan hawliau'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc a'r cymorth a'r gefnogaeth y gallant ddisgwyl eu cael yn glir a chryno. Mae ffocws y Siarter yn bennaf ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y grŵp hwn ac mae'n gyson ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal â bod yn adnodd allweddol i weithwyr proffesiynol droi ato, bydd y Siarter yn helpu i sicrhau bod gwir lais a rheolaeth gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o ran y gefnogaeth a'r gofal y maent yn eu derbyn er mwyn iddynt allu gwireddu eu llawn botensial.

Mark Drakeford

AWST 2015

gan Sally Holland, Y Comisiynydd Plant

Dylai eich safbwyntiau a'ch anghenion fod wrth wraidd pob penderfyniad a wneir gan y bobl sy'n gofalu amdanoch ac sy'n gweithio er eich mwyn. Nid yw hyn, o anghenraid yn golygu y cewch bopeth rydych chi ei eisiau, ond dylai pobl fod yn gwrando arnoch chi ac yn egluro pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud amdanoch chi ac a allai effeithio arnoch chi.



Mae'r siarter hon yn egluro beth y dylech ei ddisgwyl gan y sawl sy'n gofalu amdanoch ac sy'n gweithio drosoch. Yn syml, mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y dylai pobl sy'n gofalu amdanoch ac yn gweithio drosoch sicrhau ei fod yn digwydd pan rydych chi'n derbyn gofal neu ar fin gadael gofal. Hefyd, mae'n cynnwys gwybodaeth am eich hawliau. Yn aml, wrth siarad am hawliau plant, byddaf yn gweld wynebau dryslyd yn syllu'n ôl arnaf. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r byd 42 o hawliau; dyma'r pethau sylfaenol sydd eu hangen arnoch i'ch gwneud yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Fy ngwaith i yw sicrhau eich bod yn cael yr hawliau hyn, felly os ydych chi ar unrhyw adeg yn teimlo efallai nad ydych chi'n eu cael, yna mae gennyf dîm o bobl sy'n gweithio i mi a fyddai'n gallu gwrando arnoch a'ch helpu. Mae'r manylion cyswllt am fy ngwasanaeth cyngor a chefnogi am ddim ar Dudalen 6.

AWST 2015

Datblygwyd y Siarter hon i gefnogi arfer gorau a sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Er nad oes gan y Siarter hon statws cyfreithiol, ei diben yw dangos hawliau pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal neu a fu'n derbyn gofal fel y'u nodir yn Neddf Plant 1989 a rheoliadau ategol.

Yn benodol, nod y Siarter yw cefnogi arferion 'plentyn ganolog' sy'n rhoi hawliau plant a phobl ifanc ar waith fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*

Mae'n ofyniad yn ôl Erthygl 3 y bydd buddiannau gorau'r plentyn/person ifanc yn brif flaenoriaeth ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant. Anogir Rhieni Corfforaethol a phob gweithiwr proffesiynol arall sy'n ymwneud â chynghori, cefnogi a gofalu am blant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal i ddefnyddio'r Siarter hon i lywio'u harferion gorau.

Dylid ystyried amgylchiadau unigol plentyn/person ifanc ac unrhyw asesiadau risg perthnasol, a chydabod na ellir sicrhau'r egwyddorion yn llawn bob tro gan fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r angen i ddiogelu plentyn rhag niwed. Felly, mae'n amlwg y bydd yn rhaid ystyried pob un o'r egwyddorion hyn gan roi sylw i'r hyn sy'n ddiogel a phriodol i bob plentyn neu berson ifanc.

Nod y Siarter yw helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt bwerau, i sicrhau sefydlogrwydd a hyder yn y cymorth y gallant yn rhesymol ddisgwyl ei gael.

* Dylid cyfeirio at y rheoliadau priodol i egluro hawliau cyfreithiol plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal.



I gael rhagor o gymorth gallwch:-

- Siarad â'ch Gweithiwr Cymdeithasol;
- Siarad â'ch Swyddog Adolygu Annibynnol;
- Siarad â'ch Gofalwr Maeth neu Weithiwr Preswyl, Athro neu oedolyn arall y gallwch ymddiried ynddo;
- Siarad â'ch Ymwelydd Annibynnol, os oes gennych un;
- Siarad â'ch rhieni neu aelodau eich teulu;
- Siarad â'ch person arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol;
- Cysylltu â Gwasanaeth Eiriolaeth;
- Cysylltu â llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor MEIC (080880 23456 neu tecstiwch 84001 yn rhad ac am ddim);
- Cysylltwch â Gwarcheidwad Plant yn CAF/CASS Cymru (os oes llys yn cymryd rhan yn y penderfyniad am eich gofal);
- Cysylltwch â Gwasanaeth Ymchwilio, Cyngor a Chymorth Comisiynydd Plant Cymru (rhadffôn 0808 801 1000 neu tecstiwch 80800 a dechrau'ch neges gyda com);
- Cysylltwch â Childline - 0800 11 11 (www.childline.org.uk) - mae'r gwasanaeth hwn yn gyfrinachol a gallwch sgwrsio am unrhyw fater ar unrhyw adeg (ac mae ar agor bob dydd drwy'r dydd).

Yn bennaf oll, datblygwyd y Siarter hon mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc o Voices from Care; Fforwm Pobl Ifanc Wrecsam; a Fforwm Pobl sy'n Gadael Gofal Cymru. Mae eu cyfraniad a'u hadborth wrth helpu i lunio'r Siarter hon wedi bod yn werthfawr dros ben.

Iaith y ddogfen

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen hon ar gyfer plant a phobl ifanc 10 oed neu'n hŷn, sydd â dealltwriaeth ar lefel benodol. Cydnabyddir y bydd angen i weithwyr proffesiynol addasu'r Siarter ar gyfer plant ifancach a phlant ag anableddau dysgu.

Plant sy'n Derbyn Gofal



a) Cael eich cydnabod fel unigolyn

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Deall pa ofal a chymorth sydd ar gael i ddiwallu eich anghenion;
- Cael eich annog a'ch canmol a derbyn y cymorth sydd ei angen arnoch chi i wneud y pethau rydych chi am eu gwneud;
- Cael amser ar eich pen eich hun gyda'r bobl sy'n bwysig i chi;
- Prynu eich dillad a'ch taclau ymolchi eich hun;
- Gwybod y bydd eich eiddo'n cael eu parchu a'u cadw'n ddiogel os nad ydych chi'n gallu eu cadw gyda chi;
- Cael dathlu a chydabod eich pen-blwydd a digwyddiadau eraill sy'n bwysig i chi, fel gwyliau crefyddol;
- Cael gwyliau a chymryd rhan mewn gweithgareddau adloniant a hamdden;
- Cael y cyfle i arfer eich crefydd eich hun a mwynhau'ch diwylliant a'ch iaith eich hun;
- Cael gofal, pan mae hynny'n ymarferol mewn iaith o'ch dewis, mewn modd sy'n ystyriol o'ch crefydd a'ch diwylliant;
- Cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am newidiadau i'ch trefniadau byw.

b) Lles Corfforol ac Emosiynol

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael cefnogaeth i gynnal a gwella eich iechyd a'ch lles (corfforol ac emosiynol);
- Derbyn gwybodaeth, cefnogaeth a chynghor i wneud dewisiadau gwybodus ac iachus ar gyfer eich iechyd;
- Cael digon o fwyd a diodydd blasus a maethlon;
- Cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, ymarfer corff rheolaidd a chwarae;
- Cael eich annog i gael bywyd cymdeithasol os ydych chi eisiau hynny;
- Cael eich annog i gytuno ar amser gwely a chadw at yr amser hwnnw er mwyn cael digon o orffwys a chwsg;
- Cael help i ddod o hyd i'r atebion sydd gennych chi am fod mewn gofal;
- Cael cynnig sesiynau cwnsela, yn ôl yr angen;
- Cael byw mewn amgylchedd heb fwg;
- Cael eich cofrestru gyda Meddyg, Deintydd ac Optegydd a chael archwiliadau rheolaidd;
- Cael digon o wybodaeth er mwyn i chi allu gwneud penderfyniad gwybodus, am gael archwiliadau a thriniaethau meddygol;
- Cael gwybodaeth ac addysg am iechyd a rhyw.

c) Diogelwch rhag Camdriniaeth ac Esgeulustod

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac emosiynol ac yn byw mewn amgylchedd diogel sy'n rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- Teimlo eich bod yn cael eich amddiffyn rhag bwlio a rhagfarn o bob math;

- Cael gwybodaeth am gynnal perthynas ddiogel a chael eich helpu i ddeall risgiau, a deall beth sy'n ymddygiad amhriodol ac yn gallu gwneud dewisiadau diogel;
- Gwybod bod rhywun ar gael i wrando arnoch chi a'ch cefnogi ac y bydd rhywun yn ymchwilio i'ch pryderon;
- Derbyn gofal priodol gan bobl sydd wedi'u hyfforddi a'u paratoi i ofalu'n dda amdanoch chi;
- Gwybod na ddylai neb gyffwrdd â chi mewn modd amhriodol neu mewn modd sy'n eich gwneud chi i deimlo'n anghyffyrddus.

d) Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael addysg, trwy fynd i'r ysgol, coleg neu leoliad addysg arall sy'n briodol i'ch anghenion;
- Cael eich annog a chael eich cefnogi i ddysgu a datblygu er mwyn cyflawni'ch llawn botensial;
- Cael eich canmol pan fyddwch yn gweithio'n dda neu'n gwneud eich gorau gan wneud ymdrech fawr;
- Cael y lle, yr amser a'r preifatrwydd i wneud eich gwaith cartref, yn cael eich annog i'w wneud, ac yn cael cymorth a chynghor pan fydd angen;
- Cael cymorth i ddilyn addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth os mai dyna rydych chi eisiau;
- Cael help a chynghor i reoli'ch arian personol;
- Cael cyngor ar eich gyrfa;
- Cael cefnogaeth mewn digwyddiadau sy'n bwysig i chi yn yr ysgol neu'r coleg e.e. nosweithiau rhieni; cyngherddau ysgol/coleg; diwrnodau mabolgampau ac ati.

e) Perthynas gyda Phobl a'r Teulu

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Gwybod y bydd rhywun yn gwrando ar eich dymuniadau a'ch teimladau wrth wneud penderfyniadau am drefniadau cysylltu;
- Cadw mewn cysylltiad gyda'ch brodyr a'ch chwiorydd a'r bobl sy'n bwysig i chi waeth pa mor bell maen nhw'n byw (os yw'n briodol ac yn ddiogel i chi wneud hynny);
- Cael eich annog i wneud ffrindiau newydd a chadw mewn cysylltiad â hen ffrindiau, os yw hynny'n briodol;
- Cael eich cefnogi i ymweld â'ch ffrindiau, os yw'n briodol, neu i wneud trefniadau cymdeithasol eraill i fynd oddi cartref;
- Byddwch yn gwybod na chewch chi eich cosbi trwy ohirio neu ganslo eich ymweliadau gartref;
- Bydd newidiadau i'ch trefniadau byw yn cael eu trafod gyda chi, os oes modd;
- Byddwch yn cael cynnig cefnogaeth a chynghor am weld eich teulu (os yw'n ddiogel i chi wneud hynny);
- Byddwch yn gwybod na chewch chi'ch gwahanu oddi wrth eich brodyr a'ch chwiorydd yn ddiangen ac y bydd eich barn am gael eich gwahanu yn cael ei hystyried.

f) Cymryd Rhan mewn Cymdeithas

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael eich annog a'ch cefnogi i fod yn rhan o'r gymuned leol;
- Cael eich helpu a'ch annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau hamdden yn y gymuned ehangach.

g) Cael gwrandawriad, gofyn eich barn a'ch gwerthfawrogi

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Gweld bod eich hawliau a'ch safbwyntiau yn cael eu parchu;
- Cael eich trin fel unigolyn a'ch trin â pharch ac urddas;
- Gwybod y bydd rhywun yn egluro rheolau neu benderfyniadau i chi er mwyn i chi eu deall;
- Cael eich cynnwys mewn penderfyniadau am beth sy'n digwydd yn y cartref ble rydych chi'n byw;
- Cael eich cynnwys yn y gwaith o gynllunio adolygiadau, gan gynnwys pwy fydd yn bresennol ac os yw'n ymarferol, ble bydd yn cael ei gynnal;
- Cael gweld adroddiadau'r adolygiadau a chewch gyfle i siarad mewn cyfarfodydd adolygu;
- Cael eich cynnwys yn y gwaith o ysgrifennu'ch Cynllun Gofal, Cynllun Addysg Unigol a Chynllun Llwybr;
- Cael cysylltiad rheolaidd â'ch Gweithiwr Cymdeithasol;
- Cael defnyddio eiriolwr annibynnol, rhywun sy'n gallu siarad drosoch chi a help i wneud yn siwr bod eich safbwyntiau'n cael eu hystyried;
- Gallu gwneud cwyn a chael eich cefnogi i wneud y gwyn honno os ydych chi'n teimlo bod rhywbeth yn annheg neu yn eich gwneud yn anhapus.

Pobl sy'n Gadael Gofal



Diben yr adran hon yw codi lefelau disgwyliadau, dyheadau ac yn fwy na dim dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar Bobl sy'n Gadael Gofal a'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl oddi wrth Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu fel rhieni corfforaethol da.

a) Hunaniaeth

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael cymorth a pharch o ran eich hunaniaeth a help i ddatblygu eich credoau a'ch gwerthoedd;
- Cael cefnogaeth fel unigolyn a'ch annog i ddod yn aelod gwerthfawr o'ch cymuned;
- Cael cefnogaeth i gynnal perthynas â phobl sy'n bwysig i chi a help i reoli perthnasau wrth iddyn nhw newid;
- Cael help i feithrin a chynnal perthynas ag aelodau'r teulu (os ydych am wneud hynny ac os yw'n ddiogel i chi wneud) ar ôl i chi adael gofal.

b) Cred ynoch Chi

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael cefnogaeth ac anogaeth i'ch helpu i adeiladu ar eich cryfderau a'ch doniau er mwyn cyflawni eich dyheadau a'ch nodau;

- Cael help a chefnogaeth i chwalu neu groesi unrhyw ffiniau sy'n eich rhwystro er mwyn eich helpu i gyflawni eich dyheadau a'ch nodau;
- Cael help a chymorth i feithrin annibyniaeth trwy roi cyfle i chi roi cynnig ar bethau ar eich pen eich hun.

c) Bydd rhywun yn gwrando arnoch chi, yn gofyn eich barn ac yn eich gwerthfawrogi

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael eich cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi gan wybod y bydd eich anghenion, eich dymuniadau a'ch teimladau yn sail i'r penderfyniadau hynny ac yn sail i unrhyw gynlluniau ar gyfer eich dyfodol;
- Cael gwrandawriad, ac yn cael eich parchu fel rhan o ddeall eich safbwynt chi;
- Byddwch yn siwr bod eich hawliau'n cael eu hystyried a'u parchu;
- Cael eich trin fel unigolyn a'ch trin â pharch ac urddas;
- Gwybod y bydd unrhyw reolau neu benderfyniadau'n cael eu hegluro i chi mewn modd y byddwch yn ei ddeall;
- Cael eich cynnwys mewn penderfyniadau am beth sy'n digwydd yn y cartref ble rydych chi'n byw;
- Gweld bod eich safbwyntiau'n cael eu parchu;
- Gweld adroddiadau'r adolygiadau ac yn cael y cyfle i siarad mewn cyfarfodydd adolygu;
- Cael eich cynnwys yn y gwaith o ysgrifennu'ch Cynllun Gofal, Cynllun Addysg Unigol a Chynllun Llwybr;
- Cael cysylltiad rheolaidd â'ch Gweithiwr Cymdeithasol;
- Cael defnyddio eiriolwr annibynnol, rhywun sy'n gallu siarad drosoch chi a helpu i wneud yn siwr bod eich safbwyntiau'n cael eu hystyried;
- Gallu gwneud cwyn a chael eich cefnogi i wneud y gwyn honno os ydych chi'n teimlo bod rhywbeth yn annheg neu yn eich gwneud yn anhapus.

d) Gwybodaeth i'w helpu

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael cefnogaeth ar hyd eich taith o ofal i fywyd annibynnol fel oedolyn trwy gael gwybodaeth ddefnyddiol neu drwy gael eich cyfeirio at wybodaeth o'r fath yn cynnwys yr hawliau budd-daliadau a'r gwasanaethau sydd ar gael i chi;
- Gwybod pa wybodaeth am eich hun a'ch amser mewn gofal y mae gennych hawl i'w gweld a chael cymorth i gael gafael ar y wybodaeth rydych chi am ei chael;
- I barhau i fyw gyda chyn rhieni maeth y tu hwnt i 18 oed;
- Derbyn gwybodaeth am Wasanaethau Cwnsela sydd ar gael er mwyn eich cefnogi chi i reoli'ch teimladau;
- Derbyn cymorth gan eich Gweithiwr Cymdeithasol neu'ch Cynghorydd Personol.

e) Eich Cefnogi Chi

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael y cymorth a nodir yn y rheoliadau a'r canllawiau cyfredol tra'ch bod chi angen y cymorth hwnnw, h.y. tan eich bod yn 21 oed neu hyd at 25 oed os ydych chi'n parhau mewn addysg/hyfforddiant;
- Cael gwybodaeth am wasanaethau cwnsela priodol er mwyn cael cymorth emosiynol parhaus;
- Cael y cymorth ymarferol ac ariannol sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth;
- Cael cymorth sy'n eich galluogi i gael mynediad at y gwasanaethau y mae gennych hawl i'w derbyn;
- Cael sicrwydd bod eich anghenion yn cael eu deall a dod o hyd i ffyrdd, gan gynnwys gwasanaethau eraill, i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Derbyn cymorth bob amser, pan fo hynny'n bosibl, i ddiwallu'ch anghenion, er enghraifft y tu allan i oriau coleg a gwaith.

f) Cael Cymorth Parhaus

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael cymorth i gyfrannu at ddatblygiad eich cynllun llwybr (os yw'n berthnasol) er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi'n gywir eich anghenion, eich nodau a'ch dyheadau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn eich cynllun gweithredu cyffredinol;
- Cael cymorth i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch chi a'ch bod yn eu derbyn, gan gynnwys tai, budd-daliadau, addysg bellach, darparwyr cyflogaeth a gwasanaethau iechyd i'ch helpu i sefydlu eich annibyniaeth o fewn y gymuned o'ch dewis;
- Cael eich trin yn gwrtais ac yn sensitif;
- Cael cynllun o'ch rhwydwaith cymorth er mwyn i chi wybod ble a sut i gael cymorth os ei angen arnoch chi.

g) Dod o hyd i Gartref

Gallwch ddisgwyl y byddwch yn:-

- Cael eich paratoi at symud i fyw yn annibynnol ar adeg pan fyddwch yn barod i wneud hynny nid dim ond am eich bod wedi cyrraedd 16 oed;
- Derbyn cymorth a chefnogaeth i aros gyda gofalwyr maeth ar ôl i chi gyrraedd 18 oed os mai dyna yw eich dymuniad chi a'r rhieni maeth;
- Cael cymorth i feddwl am y dewisiadau sydd ar gael a dod o hyd i lety sy'n addas i chi;
- Gwybod bod popeth posibl wedi'i wneud er mwyn sicrhau eich bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel pan fyddwch chi'n symud i fyw'n annibynnol;
- Cael cymorth yn eich bywyd annibynnol tan eich bod wedi ymgartrefu ac nad oes angen cymorth arnoch chi bellach;
- Cael cymorth a chefnogaeth i wneud cysylltiadau ag asiantaethau eraill sy'n gallu'ch helpu chi i sefydlu eich cartref yn y gymuned rydych chi'n dymuno byw ynddi.

